

28/08/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae yna lawer o drafod wedi bod o gwmpas y defnydd o orchuddion wyneb a'u defnydd mewn ysgolion yng Nghymru dros yr wythnos ddiwethaf. Penderfyniad Llywodraeth Cymru oedd i awdurdodau lleol ac ysgolion i asesu'r risg yn unol â'r sefyllfa unigol ym mhob ysgol. Wedi gwneud asesiad risg ym Mryn Tawe, mae'r wybodaeth isod yn amlinellu ein disgwyliadau ni i ddisgyblion Bryn Tawe o ran gwisgo gorchuddion wyneb yn yr ysgol.

ARDALOEDD POBLOG UCHEL:

- **Bydd disgwyl** i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb wrth **deithio ar hyd y coridorau** i gyd, oni bai'r bod rheswm meddygol yn eu heithrio rhag gwneud.
- **Bydd disgwyl** i ddisgyblion wisgo gorchudd **wrth giwio i brynu bwyd** oni bai'r bod rheswm meddygol yn eu heithrio rhag gwneud. Yn naturiol, byddant yn eu tynnu wedi eistedd er mwyn bwyta eu cinio.
- Bydd disgwyl i ddisgyblion wisgo gorchudd os ydynt yn **teithio ar fysics ysgol benodedig** oni bai'r bod rheswm meddygol yn eu heithrio rhag gwneud (gweler y canllawiau ar gyfer teithio ar fysics ysgol benodedig [yma](#) ar gyfer manylion llawn).

Mae'n bwysig iawn i ddisgyblion i ddeall taw **un strategaeth ychwanegol** i leihau risg o ledaenu'r haint yw'r defnydd o orchudd wyneb mewn ardaloedd poblog uchel, nid yr unig strategaeth! Mae'n allweddol bod ein disgyblion yn glynu at y **camau iechyd unigol** i gyd, sydd at ei gilydd, yn ein helpu i **leihau'r risg o ledaenu'r firws**:

- Golchi neu ddiheintio dwylo yn aml (wrth gyrraedd a gadael adeilad yr ysgol; wrth fynd i mewn ac wrth adael pob ystafell; cyn ac ar ôl bwyta; cyn ac ar ôl defnyddio'r tŷ bach...)
- Cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'. Byddai cario hancesi tafladwy yn ddefnyddiol, ond bydd angen i ddisgyblion sicrhau eu bod yn eu taflu yn ddiogel mewn bin (neu ddefnyddio llewys).
- Cynnal pellter cymdeithasol gymaint ag sy'n bosib.
- Dilyn y system un ffordd.
- Peidio â chymysgu gyda disgyblion o flynyddoedd arall.

Yn ogystal, rydym wedi sicrhau **trefniadau penodol** i gefnogi'r strategaethau uchod er mwyn **leihau'r risg o ledaenu'r firws**:

- Disgyblion CA3 yn symud ar adegau gwahanol i ddisgyblion CA4 a 5 rhwng gwersi.
- Byddwn yn sicrhau ein bod yn awyru'r adeilad ac ystafelloedd yn ystod y dydd.
- Darwahanu cyfnodau egwyl a chinio.
- Lleoliadau penodol i ddisgyblion o flynyddoedd penodol ar gyfer egwyl a chinio - ni fydd caniatâd i ddisgyblion gymysgu y tu allan i'w blynyddoedd tra yn yr ysgol neu ar y bws.
- Ardaloedd eistedd penodol yn y ffreutur i flynyddoedd gwahanol.
- Glanhau yn aml, gyda disgyblion ac athrawon yn glanhau 'wrth iddynt fynd'.
- Bydd y neuaddau ac ardaloedd eistedd yn y ffreutur yn cael eu diheintio ar ôl i ddisgyblion o flwyddyn benodol eu defnyddio.

Byddwn yn atgoffa'r disgyblion o'r camau uchod yn ddyddiol a gofynnwn i chi fel rhieni wneud yr un peth, fel eu bod yn datblygu'n arferion dyddiol i bob un o'n disgyblion yn gyflym iawn. Dyma'r ffordd orau o ddiogelu ein gilydd yn yr ysgol.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODD WYR
MEWN POBL

Aur



Ni fydd disgwyl i ddisgyblion i wisgo gorchudd wyneb ar y **buarthau**, wrth **fwyta eu brechdanau yn y neuadd** na chwaith mewn **ystafelloedd ddosbarth**.

Mae yna **gamau pendant gennym yn yr ystafelloedd dosbarth** i sicrhau diogelwch, gan na fydd cynnal pellter cymdeithasol yn bosib ym mhob achos oherwydd y niferoedd o ddisgyblion yn y dosbarth (yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Abertawe):

- Diheintio dwylo ar y ffordd i mewn ac allan o bob ystafell.
- Awyru pob ystafell.
- Disgyblion yn eistedd yn wynebu'r blaen.
- Eistedd ochr yn ochr gyda chyd-ddisgyblion ac nid yn eu hwynebu mewn gwersi.
- Glanhau yn aml, gyda disgyblion ac athrawon yn glanhau 'wrth iddynt fynd'.
- Disgyblion i ddod a'u hoffer eu hunain - ni fydd caniatâd i rannu offer.

GWISGO A THYNNU GORCHUDD:

Bydd **disgwyl i ddisgyblion ddod â gorchudd wyneb personol gyda nhw bob dydd**. Os ydynt yn defnyddio rhai aml-ddefnydd, disgwylir iddynt fod yn lan pob dydd ac yn addas at ddefnydd mewn ysgol. Rydym yn disgwyl bod pob rhiant yn sicrhau hyn. Rhaid i ddisgyblion ddilyn y camau canlynol wrth dynnu a gwisgo gorchudd:

- Wrth wisgo ac wrth dynnu'r gorchudd, bydd rhaid i'r disgybl olchi ei ddwylo neu eu diheintio.
- Ni ddylai'r disgybl gyffwrdd â blaen y gorchudd tra'n ei wisgo neu ei dynnu.
- Bydd angen gwaredu'r gorchudd dros dro mewn bin.
- Bydd rhaid gosod gorchuddion 'aml-ddefnydd' mewn bag plastig pob tro y maent yn tynnu'r gorchudd, ac yna golchi eu dwylo neu ddiheintio eto cyn mynd i'r ystafell ddosbarth. Disgwyliwn i rieni ddarparu'r bag plastig i'w plentyn.

Gai eich sicrhau y byddwn yn parhau i gynnal ethos croesawgar a chynnes yn yr ysgol ac yn trafod pwysigrwydd yr holl gamau rydym wedi mabwysiadu gyda'n disgyblion. Os oes rhesymau meddygol pam na all ddisgybl ddefnyddio gorchudd, byddwn yn trafod y rhain gyda chi fel rhieni. Ein bwriad fel ysgol yw i groesawi ein disgyblion yn ôl i'r fel y gallan nhw barhau gyda'u haddysg mewn awyrgylch gefnogol a chynhwysol. Os oes unrhyw bryder gennych am unrhyw agwedd o'ch plentyn yn dychwelyd, yna cysylltwch gydag i drafod naill ai yn yr ysgol neu drwy'r e-bost yma:

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net .

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

